



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: RE/616 /21

John Griffiths AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddCymunedau@senedd.cymru

30 Hydref 2021

Annwyl John,

Diolch am eich llythyr yn gofyn am ragor o wybodaeth am rai o'r materion a drafodwyd gennym pan ddeuthum i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar 22 Medi.

Yn y cyfarfod, addewais roi rhagor o fanylion am waith Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol (y Panel). Y Panel yw'r corff annibynnol sydd â'r brif swyddogaeth o wneud penderfyniadau ar y cyflogau a'r taliadau y mae prif gynghorau, cynghorau cymuned, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol yn eu gwneud i'w haelodau etholedig. Mae ei bwerau hefyd yn cynnwys gwneud argymhellion ar unrhyw newidiadau arfaethedig i gyflogau prif weithredwyr prif gynghorau a phrif swyddogion tân.

Mae cylch gwaith presennol y Panel yn cynnwys cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, cynghorau tref a chymuned, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub. Mae pwerau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r Panel yn gyfyngedig, ac fe'u nodir ym Mesur 2011, ac yn Neddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 ("Deddf 2015").

Er mwyn arfer ei swyddogaeth, mae'r Panel:

- Yn cynnal deialog rheolaidd ag aelodau a swyddogion y cyrff y mae'n gyfrifol am bennu cydnabyddiaeth ariannol ar eu cyfer;
- Yn cynnal dadansoddiad o newidiadau mewn strwythurau cydnabyddiaeth cymaradwy priodol;
- Yn ystyried unrhyw faterion penodol a allai effeithio ar y lefel briodol o gydnabyddiaeth ariannol i'r cyrff dan sylw;

Papur 2

- Ymgysylltu â chyrrff perthnasol yng Nghymru mewn perthynas â chydabyddiaeth cynrychiolwyr etholedig, h.y. Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Un Llais Cymru.

Mae'n ofynnol i'r Panel lunio adroddiad blynyddol, sy'n rhagnodi'r taliadau a'r lwfansau i gynghorwyr ac aelodau'r sefydliadau a restrir uchod, a gall lunio Adroddiadau Atodol ar unrhyw adeg y mae'n ystyried eu bod yn angenrheidiol. Wrth baratoi ei adroddiadau, mae'n ofynnol i'r Panel ystyried effaith ariannol debygol ei benderfyniadau ar yr awdurdod o dan sylw.

Ar hyn o bryd mae'r Panel yn ymgynghori ar ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2022/2023. Daw'r ymgynghoriad i ben ar 26 Tachwedd ac ar ôl hynny bydd y Panel yn ystyried unrhyw sylwadau a fydd yn llywio penderfyniadau ynghylch penderfyniadau terfynol a chynnwys yr Adroddiad terfynol. Gellir gweld yr ymgynghoriad [yma](#).

Addewais hefyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf am hynt y gwaith o ymateb i argymhellion y Panel Adolygu Annibynnol ar Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru.

Er mai argymhellion i bob sector eu hystyried a'u datblygu oedd y rhain, nododd Llywodraeth Cymru nifer o gamau allweddol yr oedd yn bwriadu eu cymryd i ymateb. Rhoddodd y Gweinidog blaenorol ddiweddariad ysgrifenedig ar waith Llywodraeth Cymru gyda'r sector cynghorau cymuned a thref, a'r cymorth iddo, ym mis Mawrth 2020 [[dolen](#)]. Rwyf wedi atodi diweddariad manylach ar y cynnydd o ran y meysydd gweithredu yn **Atodiad A**. Fel yr amlinellwyd yn y datganiad ysgrifenedig, mae rhai cwestiynau heb eu datrys o hyd wedi'u codi gan yr adolygiad ac mae angen eu hystyried ymhellach. Mae'r angen i ganolbwyntio ar y pandemig wedi achosi oedi cyn y gellir rhoi ystyriaeth briodol iddynt. Rwy'n bwriadu ailedrych ar y cwestiynau hyn ystod tymor y Senedd hon, gan weithio gyda'n partneriaid i ddatblygu cynigion clir, y gallai fod angen deddfwriaeth bellach ar gyfer rhai ohonynt.

Roeddech yn gofyn am ragor o fanylion am y cymorth sydd ar gael i glercod cynghorau, gan gynnwys pecynnau hyfforddi i bobl sy'n newydd i'r rôl, ac a oes unrhyw waith yn cael ei wneud neu'n cael ei gynllunio i ddiweddarau disgrifiadau swydd er mwyn sicrhau bod gan ymgeiswyr ddealltwriaeth glir o'r rôl a bod ganddynt brofiad perthnasol.

O ran cymorth Llywodraeth Cymru, yn 2021-22, rydym wedi dyrannu tua £70,000 i ddarparu cyllid ar gyfer cost lawn ymgymryd â'r Dystysgrif mewn Gweinyddu Cynghorau Lleol (CiLCA) ar gyfer tua 70 o glercod. Rydym hefyd yn darparu tua £2k ar gyfer hyfforddiant cyffredinol ychwanegol i glercod, er enghraifft, i glercod newydd yn eu swyddi ymgymryd â Chyflwyniad i Weinyddu Cynghorau Lleol (ILCA); ac anghenion datblygu proffesiynol parhaus eraill. I roi rhywfaint o gyd-destun: yn ystod y ddwy flynedd flaenorol, gwnaethom gynnig £6k a £3k yn y drefn honno i gefnogi ac ysgogi hyfforddiant clercod ac ni chafodd y rhain eu gwario'n llawn. Rwy'n agored i gynyddu'r cyllid sydd ar gael pe bai'r galw'n cynyddu, ac rwy'n gweithio gydag Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (SLCC) i annog hyn. Bydd y gofyniad newydd i gynghorau cymuned gyhoeddi cynlluniau hyfforddi yn rhoi cipolwg ar eu hanghenion hyfforddi.

Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol yw'r corff proffesiynol ar gyfer clercod cynghorau lleol ac mae'n cynorthwyo ei aelodau i ennill yr wybodaeth, yr hyfforddiant a'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer eu rôl. Mae'n cynnig gwasanaeth mentora ar gyfer clercod newydd yng Nghymru. Mae'n cynnal dau weminar bob blwyddyn sydd wedi'u hanelu'n benodol at glercod newydd ac yn cynhyrchu taflen wirio i gefnogi clercod sydd wedi dechrau yn eu rôl

Papur 2

yn ddiweddar. Maent yn rhoi cyngor ar rôl a disgrifiad swydd y clerc, gan gynnwys disgrifiad swydd enghreifftiol. Mae Un Llais Cymru yn darparu amrywiaeth o wasanaethau a deallwn y byddai hyn yn cynnwys cymorth i gynghorau sy'n dymuno penodi clerc newydd.

Roeddech yn gofyn hefyd am ragor o wybodaeth am y trefniadau i sicrhau bod Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBCau) yn atebol yn ddemocrataidd.

Nod CBCau yw dod â mwy o gydlyniant i drefniadau llywodraethu rhanbarthol, a chael gwared ar rywffaint o gymhlethdod y trefniadau llywodraethu rhanbarthol - cryfhau atebolrwydd democrataidd lleol drwy sicrhau mai aelodau etholedig lleol sy'n gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd am wasanaethau llywodraeth leol mewn modd agored a thryloyw ac er budd eu dinasyddion a'u cymunedau. Bydd arweinwyr pob cyngor cyfansoddol yn aelodau o'r CBCau a byddant yn atebol i'w cynghorau cyfansoddol am y penderfyniadau a wnânt fel rhan o'u CBC.

Bydd yn ofynnol i CBC sefydlu trefniadau trosolwg a chraffu priodol gan ymgynghori a chytuno â'i gynghorau cyfansoddol. Bydd hyn yn rhan bwysig o atebolrwydd democrataidd y CBC. Bydd hefyd yn ofynnol i CBC gael ei is-bwyllgor llywodraethu ac archwilio ei hun a fydd â'r un swyddogaethau ag un mewn awdurdod lleol - gan gynnwys adolygu a chraffu ar faterion ariannol, rheoli risg a rheolaeth fewnol CBC.

Mae atebolrwydd cyhoeddus hefyd yn elfen allweddol o sicrhau atebolrwydd democrataidd CJC. Bydd yn ofynnol i CBC annog y cyhoedd i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau, gan sicrhau bod unigolion yn gallu cyfrannu at lunio gwasanaethau y maent hwy a'u teuluoedd yn dibynnu arnynt ac sy'n cael effaith sylweddol ar eu bywydau bob dydd. Bydd y cyhoedd hefyd yn gallu cael mynediad i gyfarfodydd CBC, gan gynnwys cyfarfodydd gwyllo, yn yr un modd ag y maent ar hyn o bryd ar gyfer awdurdodau lleol.

Bydd swyddogion Cyd-bwyllgor Corfforedig yn ddarostyngedig i'r un gofynion o ran ymddygiad, tryloywder ac atebolrwydd â chyflogeion awdurdodau lleol.

Yn olaf, yn ystod y cyfarfod cyfeiriais at *Ddiwygio Cyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru: Crynodeb o'r Adroddiad Canfyddiadau* a dywedais y byddwn yn croesawu barn y Pwyllgor ar yr opsiynau a nodwyd. <https://llyw.cymru/diwygio-cyllid-llywodraeth-leol-yng-nghymru-crynodeb-or-canfyddiadau>

Rwyf wedi ysgrifennu ar wahân atoch chi a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid ynghylch y dyraniadau ariannol a wnaed o'r £2 biliwn heb ei neilltuo yng nghyllideb atodol mis Mehefin.

Yn gywir,



Rebecca Evans AS/MS

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Atodiad A – Y Panel Adolygu Annibynnol ar Gyngorau Cymuned a Thref yng Nghymru

Meysydd Gweithredu Llywodraeth Cymru - Diweddariad Hydref 2021

THEMA 1: Egluro rôl y sector

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau'n gyson y rôl bwysig y mae'n ei gweld ar gyfer y sector, a amlygwyd gan y cyfraniad a wnaed at ymateb i'r pandemig a chefnogi eu cymunedau. Rydym wedi deddfu i roi'r potensial i gyngorau cymuned a thref chwarae rhan fwy sylweddol a mwy gweladwy yn eu cymunedau.

Er enghraifft, rydym wedi rhoi pŵer cymhwysedd cyffredinol newydd i gyngorau cymuned a thref drwy Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021. Rydym hefyd wedi gosod gofyniad newydd ar y sector i ystyried sut maent yn ymgysylltu, yn cynllunio, yn cynnal ac yn adrodd i'w hetholwyr drwy gyflwyno adroddiadau blynyddol.

Rydym yn cyfathrebu'n rheolaidd â chynghorau cymuned a thref drwy ddiwyddiadau cenedlaethol a drefnir gan Gymdeithas Clercod Cyngorau Lleol ac Un Llais Cymru. Mae Un Llais Cymru yn gweithio gyda chymunedau'n lleol i hyrwyddo gwerth cyngorau cymuned. Credwn fod hon yn rôl sy'n gweddu orau i'r rhai sydd agosaf at y cymunedau. Ein rôl ni yw eu cefnogi i lywodraethu'n dda.

Mae ein partneriaid yn y sector yn bwrw ymlaen â gwaith i egluro rolau o ran y gwasanaethau y gallai cyngorau cymuned a thref eu darparu. Mae Un Llais Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ymchwilio i drosglwyddo asedau a dirprwyo gwasanaethau, a datblygu cynllunio'n seiliedig ar leoedd. Rydym yn cytuno â hwy y dylai penderfyniadau ynghylch egluro 'pwy sy'n gwneud beth' gael eu gwneud yn lleol yn hytrach na chael eu gorfodi gan lywodraeth genedlaethol.

THEMA 2: Gwella democratiaeth a chyfranogi

Argymhellodd yr adolygiad y dylid adolygu ffiniau cymunedol yn rheolaidd. Argymhellodd hefyd y dylid cymryd camau i wella'r mynediad democrataidd at gyngorau a'r cyfle i gymryd rhan ynddynt.

Mae defnyddio'r pwerau presennol i sicrhau bod Adolygiadau Cymunedol yn cael eu cynnal yn rheolaidd yn ymateb cymesur i sicrhau bod ffiniau unigol yn parhau'n berthnasol. Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru newydd gwblhau cylch o arolygon etholiadol a fydd yn dod i rym cyn yr etholiadau llywodraeth leol cyffredin nesaf. Mae rhai o'r rhain wedi gwneud newidiadau i drefniadau cyngorau cymuned, ac mae argymhellion yr adolygiad cymunedol yn Sir Fynwy hefyd yn cael eu gweithredu. Ar ôl cwblhau'r ymarfer hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i edrych yn ôl ar y broses a chynllunio ar gyfer y cylch nesaf. Er enghraifft, efallai y byddai'n synhwyrol adolygu amseriad adolygiadau cymunedol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau mewn da bryd i hysbysu'r adolygiadau etholiadol.

O ran ymgysylltu â'u cymunedau a chynyddu cyfranogiad, rydym yn annog cyngorau cymuned a thref i wneud mwy o ddefnydd o adnoddau a llwyfannau sydd

Atodiad A – Y Panel Adolygu Annibynnol ar Gyngorau Cymuned a Thref yng Nghymru Meysydd Gweithredu Llywodraeth Cymru - Diweddariad Hydref 2021

ar gael am ddim. Rydym wedi darparu cymorth penodol drwy ddefnyddio tystiolaeth a gasglwyd gan gyngorau cymuned a thref i baratoi a chyhoeddi canllaw i'r cyfryngau digidol, [Cysylltu â'ch Cymuned Leol](#) ym mis Ionawr 2021.

Er mwyn gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd a mynediad at waith cyngorau cymuned a thref, darparodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i gyngorau cymuned wneud trefniadau i alluogi mynediad rhithwir i gyfarfodydd y cyngor. O ran cyfranogiad y cyhoedd mewn cyfarfodydd, ymddengys nad yw cynnal cyfarfodydd cyhoeddus blynyddol yn cael llawer o effaith o ran cyfranogiad y cyhoedd yn Lloegr. Felly, rydym wedi mabwysiadu dull mwy rheolaidd - o fis Mai 2022 ymlaen, bydd gan aelod o'r cyhoedd hawl i wneud sylwadau rhesymol ar eitem fusnes mewn unrhyw gyfarfod cyngor cymuned a thref. Teimlwn y bydd hyn yn dileu rhwystrau i aelodau cymunedau ymgysylltu â'u cyngor.

Rydym hefyd wedi cymryd camau i annog mwy o bobl i sefyll etholiad i gyngorau cymuned a thref. Ym mis Hydref, lansiodd Cronfa Mynediad i Swyddfa Etholedig i gefnogi ymgeiswyr anabl sydd am geisio cael eu hethol yn etholiadau llywodraeth leol y flwyddyn nesaf. Mae'r gronfa'n talu am gymorth ymarferol i ganiatáu i bobl anabl gymryd rhan lawn yn y broses wleidyddol.

Rydym wedi ariannu Un Llais Cymru i ddatblygu ffilmau hyrwyddo i'w rhannu ar draws amrywiaeth o lwyfannau cyfryngau.

Rydym yn cydnabod bod y gwaith hwn yn broses gyson a pharhaus. Er mwyn llywio ein gwaith ar hyn yn y dyfodol rydym wedi:

- Llunio arolwg ar gyfer cyngorwyr cymuned i gael gwybod mwy am eu profiadau a'r hyn sy'n eu rhwystrro, i lywio cam nesaf y gwaith hwn;
- Comisiynu adolygiad llenyddiaeth o gydnabyddiaeth ariannol cyngorwyr mewn gwledydd eraill;
- Comisiynu arolwg omnibws er mwyn deall canfyddiad y cyhoedd o gyngorau a chynghorwyr yn well.

THEMA 3: Meithrin gallu

Y camau allweddol o dan y maes hwn oedd darparu mynediad at y pŵer cymhwysedd cyffredinol i gyngorau cymuned cymwys, a gwnaethom hynny o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Daw'r ddarpariaeth hon i rym o fis Mai 2022. Bu ymgysylltu helaeth ar y cynnig i ddarparu mynediad at y pŵer cyffredinol, y bwriad i gynnwys amodau, a beth fyddai'r amodau hynny.

Ers dechrau 2020, rydym wedi darparu cyllid ar gyfer tua 70 o leoedd wedi'u hariannu'n llawn ar gyfer y Dystysgrif mewn Gweinyddu Cyngorau Lleol (CiLCA) i gefnogi cyflwyno'r pŵer cyffredinol.

Atodiad A – Y Panel Adolygu Annibynnol ar Gyngorau Cymuned a Thref yng Nghymru Meysydd Gweithredu Llywodraeth Cymru - Diweddariad Hydref 2021

Rydym wedi sicrhau bod cyllid ar gael yn gyson i gyngorau cymuned a thref ddatblygu trefniadau cyflawni ar y cyd drwy grant i annog trefniadau o'r fath. Fodd bynnag, nid oedd yr awydd gan y sector yn cyfateb i'r hyn yr oeddem efallai wedi'i ragweld, ac ar gyfer 2020-21 ymlaen cafodd yr adnoddau ar gyfer cydweithio eu hailgyfeirio i gefnogi mwy o bwyslais ar reoli ariannol a hyfforddiant llywodraethu.

THEMA 4: Meithrin gallu

Rydym yn gweithio gyda'r chyrff y sector, Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cyngorau Lleol (SLCC) - drwy'r Grŵp Cyngori Hyfforddiant Cenedlaethol (NTAG) - i nodi anghenion hyfforddi craidd ar gyfer clercod a chynghorwyr.

Er nad oes awydd am hyfforddiant craidd gorfodol gan y sector, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu bwrsariaethau i annog cynghorwyr a chlercod i fanteisio ar hyfforddiant mewn meysydd penodol, yn enwedig o ran rheolaeth ariannol a llywodraethu. Mae hyn yn cynnwys y fwrsariaeth CiLCA uchod ar gyfer clercod cyngorau cymuned a thref.

Er mwyn cefnogi gwelliant parhaus yn y sector, rydym yn archwilio sut y gallwn wneud mwy i gefnogi'r sector i werthuso'u hun a gwella'i hun. Mae gwaith ar y gweill ar offeryn hunanasesu sydd i'w dreialu yr hydref hwn. Bwriad yr offeryn hunanasesu, a gydgyhyrchwyd gydag Un Llais Cymru a SLCC gyda chynghor gan Archwilio Cymru, yw helpu cyngorau i ddeall eu rhwymedigaethau archwilio, a'u cynorthwyo i wella eu trefniadau llywodraethu.

THEMA 5: Gwella'r berthynas

Aeth Un Llais Cymru a CLILC ati i sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried sut y gellid cryfhau'r berthynas allweddol rhwng cyngorau cymuned a thref a phrif gyngorau – gan gynnwys a ddylid gwneud strwythurau penodol yn orfodol. Bu oedi yn ystod y pandemig, ond disgwylir y bydd y gwaith hwn yn ailgychwyn.

Rydym yn dal i bryderu am achosion lle mae'r berthynas waith yn chwalu mewn cyngorau cymuned a thref. Mae Llywodraeth Cymru wedi hwyluso ymgysylltu rhwng swyddfa'r Ombwdsmon a chyrff cynrychioliadol y sector ac maent gyda'i gilydd yn datblygu canllaw i gyngorau cymuned a thref mewn perthynas â chwynion swyddogion am fwlio ac aflonyddu gan gyngorwyr unigol. Disgwylir i hwn gael ei gyhoeddi gan Un Llais Cymru a SLCC yn ystod y misoedd nesaf.

Cyhoeddwyd datganiad ysgrifenedig yn ddiweddar ar yr [Adolygiad o Fframwaith Safonau Moesegol Cymru](#), a argymhellodd rai newidiadau i'r Cod Ymddygiad craidd. Mae'r pecyn cymorth hunanasesu ar gyfer cyngorau cymuned a thref yn cynnwys eitem restr wirio i sicrhau bod pob cyngorydd wedi darllen a chytuno â'r Cod Ymddygiad.

**Atodiad A – Y Panel Adolygu Annibynnol ar Gyngorau Cymuned a Thref yng Nghymru
Meysydd Gweithredu Llywodraeth Cymru - Diweddariad
Hydref 2021**

THEMA: Gwella Atebolrwydd

Gwnaed darpariaeth yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i'w gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned a thref adrodd yn flynyddol i'w cymunedau. Bydd y canllawiau ar gyfer adroddiadau blynyddol yn helpu cynghorau i fod yn dryloyw i'w cymunedau ar weithgareddau diweddar a'u cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Bydd y canllawiau hefyd yn annog cynghorau i weithio ar sail cylch o ymgysylltu, cynllunio, cynnal ac adrodd. Bydd y dull hwn yn cael ei atgyfnerthu o fewn y pecyn cymorth hunanasesu ar gyfer cynghorau cymuned a thref. Mae Canllaw'r Cynghorydd Da, sy'n nodi'r hyn a ddisgwylir a'r hyn a olygir wrth 'arfer da', wrthi'n cael ei ddiweddarau cyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai.

Bydd hefyd yn ofynnol i gynghorau cymuned a thref baratoi a chyhoeddi cynllun hyfforddi ar gyfer cynghorwyr a chlercod. Mae'n bwysig i gynghorau fod yn dryloyw ynglŷn â'u hanghenion a'u blaenoriaethau hyfforddi er mwyn rhoi hyder bod y sgiliau angenrheidiol ganddynt i gefnogi eu cymunedau.